Archwilio Cymru
Audit Wales

# Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1992A2020-21

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Y prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella 5

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 7

Atodiadau

Atodiad 1 – Adnoddau Atal Twyll 15

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr 16

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Ar 11 Mehefin 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru: Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd yr adroddiad yn adolygiad disgrifiadol, lefel uchel o'r trefniadau sydd ar waith yn Llywodraeth Cymru, y GIG ac mewn llywodraeth leol (awdurdodau unedol yn unig). Tynnodd sylw at rai negeseuon pwysig:

- mae colledion a achosir gan dwyll yn y sector cyhoeddus yn sylweddol a gallent fod rhwng £100 miliwn ac £1 biliwn. Mewn cyfnod o gyni, mae pob punt a gollir oherwydd twyll yn bunt y gellid ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus.
- mae twyll o bob math yn datblygu'n gyson, felly mae angen i fesurau atal twyll ddatblygu ar yr un raddfa â'r twyllwyr.
- mae adnoddau a neilltuir ar gyfer gweithgarwch atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith ychwanegol ar draws 40 o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Cynhaliwyd y gwaith hwn rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.

3 Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol o'r enw Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, sy'n crynhoi canfyddiad allweddol ein hadolygiad ledled Cymru. Nid yw'n disgrifio'n fanwl y trefniadau sydd ar waith mewn cyrff unigol, ond mae'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd i wella trefniadau atal twyll ledled Cymru.

4 Er bod yr adroddiad cenedlaethol wedi nodi mai trefniadau atal twyll y GIG yw'r rhai mwyaf datblygedig ar draws y sector cyhoeddus, nododd fod agenda heriol o hyd o ran gwneud y gwaith o atal twyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf lle bo globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd newydd i'r twyllwyr.

5 Mae'r adroddiad yn galw ar gyrff y GIG i fodloni eu hunain:

- bod adnoddau atal twyll wedi eu pennu'n seiliedig ar asesiad o'r ffactorau risg lleol;
- bod asesiadau risg atal twyll wedi eu hintegreiddio â threfniadau rheoli risgiau corfforaethol;
- bod strategaethau ar waith i wneud rhagor o ddefnydd o ddadansoddiadau data er mwyn atal a chanfod twyll; a
- bod strategaethau ar waith i wella cydweithrediad yn y sector ac yn ehangach, ar draws ffiniau'r sector.

6 Mae'r adroddiad cryno hwn yn nodi ein hasesiad o drefniadau atal a chanfod twyll Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Mae ein hasesiad yn

seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, gan gynnwys papurau bwrdd a phapurau pwyllgor, a chyfweliadau gyda nifer fach o staff.

# Y prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella

7 Nododd ein hasesiad bod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, bod ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith yn fanylach yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn.

8 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, fe wnaethom ni nodi rhai meysydd i'w gwella **(Arddangosyn 1**) y dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad cenedlaethol. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd i'w gwella ar gael yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: meysydd i'w gwella**

**Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth**

G1 Er bod hyfforddiant yn rhan o'r hyfforddiant cynefino a bod cynnydd yn cael ei fonitro yn y Pwyllgor Archwilio, gellid cynnwys y modiwl e-ddysgu Atal Twyll yn Hyfforddiant Gorfodol y Bwrdd Iechyd i'r Staff ac ni chaiff y staff eu hyfforddi'n flynyddol.

**Adnoddau a sgiliau**

G2 Nid yw nifer y staff sy'n Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn y sefydliad wedi ei gysylltu'n benodol â gwerthusiad o'r risg gynyddol o dwyll sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Ceir cyfle i ystyried a yw adnoddau atal twyll a chydbwysedd rhwng gwaith rhagweithiol ac adweithiol yn cyd-fynd â'r risgiau o dwyll y mae'r Bwrdd Iechyd yn agored iddynt.

**Asesiad risg o dwyll**

G3 Dylid defnyddio asesiadau risg o dwyll fel adnodd byw a'u hintegreiddio i mewn i'r fframwaith rheoli risg cyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u cynyddu'n briodol yn ôl yr angen. Mae'r astudiaeth achos ar bandemig COVID-19 yn gyfle pwysig i gymuned atal twyll Cymru ddod at ei gilydd a myfyrio ar gyflymder ac effeithiolrwydd eu hymateb i'r twyllwyr. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd gynnal y gwaith myfyrio hwn ar lefel leol hefyd.

**Amgylchedd rheoli mewnol**

G4 Dim ond ychydig o enghreifftiau o ddadansoddiadau data yn cael eu defnyddio fel ffordd o atal twyll a nododd ein hadolygiad cenedlaethol, sef ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol yn bennaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gallai wneud rhagor o ddefnydd o ddadansoddiadau data ar gyfer atal a chanfod twyll.

**Ymateb i dwyll**

G5 Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio ffyrdd o wella cydweithrediad yn ehangach ar draws ffiniau'r sector o ran risgiau a heriau cyffredin.

Ffynhonnell arddangos: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

9 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r meysydd pwyslais yn ein gwaith a'n canfyddiadau.

**Arddangosyn 2: meysydd gwaith a chanfyddiadau**

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd gennym a yw'r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll ac yn darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i ymladd yn erbyn twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• y Bwrdd/Tîm Gweithredol yn hyrwyddo ymrwymiad clir i bolisi dim goddefgarwch tuag at dwyll yn ogystal â hyrwyddo gwaith atal twyll;<br>• uwch-arweinwyr yn mynd ati i hyrwyddo a rhaeadru diwylliant atal twyll;<br>• dealltwriaeth ar draws y sefydliad o'r cyfrifoldebau o ran atal twyll ac adrodd am dwyll tybiedig; ac<br>• ymrwymiad gan y sefydliad i gynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth moeseg ac atal twyll, gyda hyfforddiant atal twyll gorfodol priodol wedi ei dargedu ar gyfer yr holl staff. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yw'r Gweithredwr Lefel Bwrdd sy'n gyfrifol am Atal Twyll – dirprwyir y cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol;<br>• mae'r sefydliad yn trin yr holl faterion sy'n ymwneud â thwyll fel blaenoriaeth, a cheir ymrwymiad clir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;<br>• mae polisïau a strategaethau yn cyfleu neges gyson na oddefir twyll, ac y cymerir pob cam i gymryd sancsiynau troseddol neu ddisgyblaethol yn erbyn y rhai hynny sy'n cyflawni troseddau;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhai sy'n gyfrifol am waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd a grwpiau staff a rheolwyr allweddol eraill sydd yn y sefydliad; ac<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i dwyll profedig a'r camau a gymerwyd.<br>Fe wnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella: |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| | • er bod hyfforddiant yn rhan o'r hyfforddiant cynefino a bod cynnydd yn cael ei fonitro yn y Pwyllgor Archwilio, nid yw'r modiwl e-ddysgu Atal Twyll wedi ei gynnwys yn Hyfforddiant Gorfodol y Bwrdd Iechyd i'r Staff ac ni chaiff y staff eu hyfforddi'n flynyddol. Ar gyfer chwarter cyntaf 2020-21, dim ond naw aelod o staff oedd wedi dilyn y modiwl e-ddysgu. |
| Ystyriwyd gennym a oes gan y sefydliad strwythur addas ac adnoddau a chanddynt sgiliau digonol i atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• arbenigwr Atal Twyll Lleol dynodedig sydd â chyfrifoldeb dynodedig dros atal twyll a'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll;<br>• lefel briodol o staff atal twyll profiadol, hyfforddedig ac achredig i gynnal ymchwiliadau a gwaith atal twyll;<br>• eglurder o ran swyddogaethau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd atal twyll;<br>• buddsoddiad mewn atal twyll yn seiliedig ar benderfyniadau gwybodus sy'n deillio o asesiad risg o dwyll sy'n tynnu sylw at risgiau ac sy'n pennu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw; a | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd Arbenigwr Atal Twyll Lleol penodedig sydd â'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll a ddynodir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi staff atal twyll achrededig a hyfforddedig sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn ôl y gofyn.<br>• lefel yr adnoddau atal twyll yn y Bwrdd Iechyd yw'r uchaf ymhlith y chwe bwrdd iechyd mawr, fodd bynnag, o'i chymharu â chyfanswm y gweithlu, mae cyfradd yr Arbenigwyr Atal Twyll Lleol fesul pob 1,000 o aelodau staff yn un o'r rhai isaf (**Atodiad 1**). Mae nifer yr Arbenigwyr Atal Twyll Lleol wedi aros ar dri Arbenigwr Atal Twyll Lleol llawn amser ers 2010 gyda Swyddog Cymorth Gweinyddol rhan-amser ers 2015. Cyn 2010, roedd y nifer yn uwch ar bum Arbenigwr Atal Twyll Lleol cyfwerth ag amser cyflawn.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur clir lle bo'r swyddogaethau a'r cyfrifoldeb mewn cysylltiad ag atal twyll wedi eu nodi'n glir.<br>• mae gan y staff atal twyll a'r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol fynediad i'r holl systemau, cofnodion ac adeiladau sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith. |

| **Meysydd gwaith** | **Canfyddiadau** |
| --- | --- |
| • rhaglen flynyddol o waith gwrth-dwyll rhagweithiol (gwaith atal twyll) sy'n cwmpasu'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg gydag amser penodedig wedi ei neilltuo ar gyfer gwaith rhagweithiol. | • mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cwblhau Offeryn Hunanadolygu Awdurdod Atal Twyll y GIG yn flynyddol. Pan gaiff materion (risgiau) eu nodi, cânt eu hymgorffori i'r cynllun gwaith atal twyll, ynghyd ag unrhyw faterion/risgiau a nodir drwy waith atal twyll cyffredinol. Mae'r Offeryn Hunanadolygu yn nodi blaenoriaethau gwaith rhagweithiol ar gyfer y flwyddyn.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd raglen flynyddol o waith gwrth-dwyll rhagweithiol (h.y. gwaith atal twyll) sy'n cwmpasu'r risgiau a nodir yn yr asesiad risg gyda diwrnodau wedi eu neilltuo ar gyfer gwneud y gwaith rhagweithiol.<br>Fe wnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:<br>• nid yw nifer y staff sy'n Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn y sefydliad wedi ei gysylltu'n benodol â gwerthusiad o'r risg gynyddol o dwyll sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Ceir cyfle i ystyried a yw adnoddau atal twyll a chydbwysedd rhwng gwaith rhagweithiol ac adweithiol yn cyd-fynd â'r risgiau o dwyll y mae'r Bwrdd Iechyd yn agored iddynt. |
| Ystyriwyd gennym a oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i gefnogi trefniadau atal twyll effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• strategaeth/polisi atal twyll sy'n nodi dull y sefydliad o reoli risgiau twyll ac sy'n diffinio cyfrifoldebau atal twyll penodol; | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd cyfredol (y polisi), sy'n cael ei adolygu, ei werthuso a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r polisi'n cynnwys cynllun ymateb atal twyll.<br>• craffwyd ar y polisi ac fe'i cadarnhawyd gan Arbenigwr Atal Twyll Lleol, uwch-reolwyr a Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd.<br>• codir ymwybyddiaeth staff o'r polisi mewn sesiynau ymwybyddiaeth atal twyll. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| • Cod Ymddygiad sy'n nodi ymddygiadau derbyniol a sut i adrodd a rheoli gwrthdaro buddiannau;<br>• trefniadau chwythu'r chwiban cadarn sy'n nodi dulliau ar gyfer rhoi gwybod am dwyll;<br>• cofrestrau a gynhelir o roddion a lletygarwch; a<br>• sgrinio cyn cyflogi. | • mae gan y Bwrdd Iechyd God Ymddygiad priodol, a pholisïau chwythu'r chwiban a seiberddiogelwch gyda phrosesau adolygu ac adnewyddu ar waith.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer cynnal ac adolygu cofrestrau buddiannau, rhoddion a lletygarwch.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael gwiriadau cyn cyflogi cyn dechrau gweithio yn y sefydliad. Dylid gofyn am ragor o eglurhad ynghylch a yw hyn yn cynnwys staff a gyflogir drwy asiantaethau cyflogaeth.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd i'w gwella. |
| Ystyriwyd gennym a oes gan y sefydliad asesiad risg o dwyll effeithiol ynghyd ag ymatebion priodol i faterion sy'n dod i'r amlwg.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• asesiadau risg o dwyll rheolaidd a chynhwysfawr y trafodir ac y cytunir arnynt gydag uwch-arweinwyr a'r Pwyllgor Archwilio;<br>• asesiadau risg o dwyll a ddangosir yn rhan o fframwaith rheoli risg cyffredinol y sefydliad; a<br>• risg o dwyll wedi ei chynnwys ym mwriad y system er mwyn lleihau'r cyfleoedd i gyflawni twyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cwblhau Offeryn Hunanadolygu Awdurdod Atal Twyll y GIG yn flynyddol.<br>• mae cynlluniau gwaith blynyddol yn seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir ac a nodir, adolygiad o achosion cyfredol, atgyfeiriadau a blaenoriaethau gwaith rhagweithiol a nodir ledled Cymru. Mae lefelau'r adnoddau atal twyll yn gymesur â lefel y risg a nodir. Caiff mesurau i liniaru risgiau a nodir eu cynnwys yn y cynllun gwaith a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>• caiff polisïau a gweithdrefnau papur eu diogelu rhag twyll gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddir gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn adolygu polisïau ac yn cynnig newidiadau pan mae o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. |

| **Meysydd gwaith** | **Canfyddiadau** |
| --- | --- |
| | Fe wnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:<br>• dylid defnyddio asesiadau risg o dwyll fel adnodd byw a'u hintegreiddio i mewn i'r fframwaith rheoli risg cyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u cynyddu'n briodol yn ôl yr angen. |
| Ystyriwyd gennym a yw amgylchedd rheoli mewnol y sefydliad yn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• rheolaethau mewnol sydd wedi eu cynllunio a'u profi ar gyfer mynd i'r afael â risgiau o dwyll a nodir ac ar gyfer helpu i atal twyll rhag digwydd;<br>• adolygiadau archwilio mewnol o risgiau o dwyll a rheolaethau a brofir, sydd wedi eu cynllunio i atal a chanfod twyll;<br>• y sefydliad yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os gwelir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad a bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau twyll; a<br>• bod y sefydliad yn defnyddio prosesau paru data i ddilysu data ac i ganfod gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae tîm Archwilio Mewnol y Bwrdd Iechyd yn adolygu risgiau o dwyll ac yn profi rheolaethau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll yn rhan o'i raglen waith flynyddol. Rhennir gwybodaeth a dealluswrydd â'r gwasanaethau atal twyll lleol yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth y cytunwyd arno.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os gwelir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad ac mae'n dysgu gwersi o ddigwyddiadau twyll.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol, gwiriadau dilysu gofal sylfaenol ar ôl gwneud taliadau a gwiriadau lleol eraill (megis cyflogres).<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio meddalwedd rheoli achosion i gofnodi holl wendidau'r system fel y nodwyd o ganlyniad i ymchwiliadau a/neu ymarferion atal a chanfod rhagweithiol. Agwedd bwysig ar y feddalwedd hon yw cofnodi'r gwersi a ddysgwyd.<br>• rhennir gwybodaeth rhwng yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r tîm Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau, ond ceir rhai pryderon ynghylch cadernid y trefniadau adfer o ganlyniad i adferiadau nad ydynt yn seiliedig ar ddata allosodedig. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| | Fe wnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:<br>• dim ond ychydig o enghreifftiau o ddadansoddiadau data yn cael eu defnyddio fel ffordd o atal twyll a nododd ein hadolygiad cenedlaethol, sef ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol yn bennaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gallai wneud rhagor o ddefnydd o ddadansoddiadau data ar gyfer atal a chanfod twyll. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd gennym a oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cynllun ymateb i dwyll cynhwysfawr sy'n nodi trefniadau clir ar gyfer adrodd ac ymchwilio i honiadau o dwyll;<br>• camau i sicrhau bod pob honiad o dwyll yn cael ei asesu;<br>• gweithdrefnau wedi eu dogfennu ar gyfer cynnal ymchwiliadau i dwyll sy'n dilyn arferion proffesiynol priodol ac yn unol â'r cynllun ymateb i dwyll;<br>• ystyriaeth o'r ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael, a chan geisio gwneud iawn (er enghraifft, adennill arian ac asedau) pan fo hynny'n briodol;<br>• system rheoli achosion briodol i gofnodi ac i fonitro'r cynnydd mewn achosion posibl o dwyll; a<br>• chydweithrediad â phartneriaid allanol i fynd i'r afael â thwyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae Cynllun Ymateb i Dwyll y Bwrdd Iechyd yn dilyn yr arferion gorau a gynghorir gan Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• staff cymwysedig yn ymchwilio i bob achos o dwyll tybiedig, ac yn unol â'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Adroddir ar ganlyniadau ymchwiliadau i'r Pwyllgor Archwilio ac i Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael iddynt (camau disgyblu staff, camau sifil a chamau troseddol) ac maent yn ceisio adennill arian pan fo hynny'n briodol a phan fo gwneud hynny yn gosteffeithiol.<br>• cofnodir pob ymchwiliad ar feddalwedd rheoli achosion. Rhennir yr hyn a ddysgir o ganlyniad i dwyll â staff priodol er mwyn gweithredu newidiadau i systemau a gweithdrefnau pan fo hynny'n briodol.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu'n rhagweithiol ac yn rheolaidd â sefydliadau ac asiantaethau eraill, megis Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg y GIG, yr heddlu, Gwasanaethau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, awdurdodau lleol, a chyrff rheoleiddio a phroffesiynol i helpu i fynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Gellir prynu gwasanaethau arbenigol oddi wrth Awdurdod Atal Twyll y GIG yn ôl yr angen.<br>Gwelsom y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio ffyrdd o wella cydweithrediad yn ehangach ar draws ffiniau'r sector o ran risgiau a heriau cyffredin. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd gennym a oes gan y sefydliad system adrodd a chraffu priodol ar waith i sicrhau bod eu diwylliant a'u fframwaith atal twyll yn gweithredu'n effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cofnod a gedwir o golledion ac adenillion o ganlyniad i dwyll;<br>• y Pwyllgor Archwilio yn mynd ati'n rhagweithiol i atal twyll a hybu diwylliant atal twyll effeithiol; ac<br>• y Pwyllgor Archwilio yn herio ac yn adolygu gwaith atal twyll, ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn cysylltiad ag atal twyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofnod o golledion ac adenillion o ganlyniad i dwyll;<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda y Pwyllgor Archwilio;<br>• cyflwynir y cynllun blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflawni'r rhaglen waith flynyddol, ynghyd â risgiau o dwyll a nodwyd a chamau gweithredu i'w lleihau nhw; a<br>• cynhyrchir diweddariadau achos ar gyfer sesiwn breifat y Pwyllgor Archwilio sy'n amlinellu'r achosion, eu statws a'r broses o adennill arian/asedau.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd i'w gwella. |

# Atodiad 1

## Adnoddau atal twyll

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi nifer yr adnoddau Arbenigwyr Atal Twyll Lleol fesul pob 1,000 o aelodau staff.

**Arddangosyn 3: Nifer yr adnoddau Arbenigwyr Atal Twyll Lleol fesul pob 1,000 o aelodau staff (o'r uchaf i'r isaf)**

| | WTE Arbenigwyr Atal Twyll Lleol | Cyfanswm y staff yn y sefydliad | WTE Arbenigwyr Atal Twyll Lleol fesul pob 1,000 o aelodau staff |
|---|---|---|---|
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru[1] | 0.2 | 280 | 0.71 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2.0 | 3,535 | 0.57 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys[2] | 1.2 | 2,286 | 0.52 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[2] | 2.6 | 11,944 | 0.22 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 2.0 | 10,032 | 0.20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2.6 | 13,659 | 0.19 |
| **GIG Cymru (cyfartaledd)** | **18.17** | **94,614** | **0.19** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[2] | 2.16 | 12,962 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 2.91 | 18,491 | 0.16 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru Ymddiriedolaeth GIG[1] | 0.3 | 1,903 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[1] | 0.4 | 4,411 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[1] | 1.8 | 15,111 | 0.12 |

[1] Mae Tîm Arbenigwyr Atal Twyll Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau hefyd i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru Ymddiriedolaeth GIG ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

[2] Mae Tîm Arbenigwyr Atal Twyll Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu gwasanaethau hefyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

Ffynhonnell: Gwasanaethau Atal Twyll yn GIG Cymru, Adroddiad Perfformiad Gweithredol 2019-20 (Chwarter 3), a'r Niferoedd Stats Cymru ar 30 Medi 2019 (a echdynnwyd o system NHS Electronic Staff Record).

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

**Arddangosyn 4: ymateb y rheolwyr**

| Cyf | Maes i'w wella | Canlyniad/lles a ddymunir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G1 | **Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth**<br>Er bod hyfforddiant yn rhan o'r hyfforddiant cynefino a bod cynnydd yn cael ei fonitro yn y Pwyllgor Archwilio, gellid cynnwys y modiwl e-ddysgu Atal Twyll yn Hyfforddiant Gorfodol y Bwrdd Iechyd i'r Staff ac ni chaiff y staff eu hyfforddi'n flynyddol. | Rhagor o bobl yn manteisio ar hyfforddiant atal twyll i staff sy'n arwain at ragor o ymwybyddiaeth o faterion a chyfrifoldebau cysylltiedig. | Nac ydy | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd yn archwilio a yw'n ymarferol cynnwys e-ddysgu Atal Twyll yn rhan o'u hyfforddiant gorfodol. | 31 Rhagfyr 2020 | Sue Hill |

| Cyf | Maes i’w wella | Canlyniad/lles a ddymunir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G2 | **Adnoddau a sgiliau**<br>Nid yw nifer y staff sy’n Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn y sefydliad wedi ei gysylltu’n benodol â gwerthusiad o’r risg gynyddol o dwyll sy’n wynebu’r Bwrdd Iechyd. Ceir cyfle i ystyried a yw adnoddau atal twyll a chydbwysedd rhwng gwaith rhagweithiol ac adweithiol yn cyd-fynd â’r risgiau o dwyll y mae’r Bwrdd Iechyd yn agored iddynt. | Manteisio i’r eithaf ar botensial y gwasanaeth. | Nac ydy | Do | Cynhelir adolygiad o’r adnoddau a ddefnyddir, gan ystyried y llwyth gwaith cyfredol, meincnodi gyda sefydliadau cymharol a’r risg o dwyll cyfredol. | 31 Rhagfyr 2020 | Sue Hill |

| Cyf | Maes i'w wella | Canlyniad/ lles a ddymunir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G3 | **Asesiadau risg o dwyll**<br>Dylid defnyddio asesiadau risg o dwyll fel adnodd byw a'u hintegreiddio i mewn i'r fframwaith rheoli risg cyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u cynyddu'n briodol yn ôl yr angen. Mae'r astudiaeth achos ar bandemig COVID-19 yn gyfle pwysig i gymuned atal twyll Cymru ddod at ei gilydd a myfyrio ar gyflymder ac effeithiolrwydd eu hymateb i'r twyllwyr. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd gynnal y gwaith myfyrio hwn ar lefel leol hefyd. | Rheoli risg yn well a lleihau'r cyfleoedd i dwyll ddigwydd | Ydy | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd ddefnyddio asesiadau risg o dwyll fel adnodd byw a bydd twyll yn cael ei integreiddio i mewn i'r fframwaith rheoli risg cyffredinol, er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u cynyddu'n briodol yn ôl yr angen.<br>Mae'r broses hon eisoes wedi dechrau.<br>Mae cymuned atal twyll GIG Cymru, yn genedlaethol ac ar lefel leol, yn rhannu rhybuddion twyll (yn enwedig mewn cysylltiad â sgamiau a thwyll sy'n ymwneud â phandemig COVID-19) mewn amser real. Rhennir y rhybuddion twyll â'r rhanddeiliaid perthnasol.<br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu rhaglen fonitro i fesur cyflymder ac effeithiolrwydd y rhybuddion twyll a gyhoeddir ar lefel leol. | 31 Rhagfyr 2020 | Sue Hill |

| Cyf | Maes i’w wella | Canlyniad/lles a ddymunir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G4 | **Amgylchedd rheoli mewnol** Dim ond ychydig o enghreifftiau o ddadansoddiadau data yn cael eu defnyddio fel ffordd o atal twyll a nododd ein hadolygiad cenedlaethol, sef ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol yn bennaf. Dylai’r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gallai wneud rhagor o ddefnydd o ddadansoddiadau data ar gyfer atal a chanfod twyll. | Sicrhau’r effaith fwyaf posibl drwy ddefnyddio dadansoddiadau data. | Ydy | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal yr ymchwil briodol ar sut i wneud rhagor o ddefnydd o ddadansoddiadau data, er mwyn atal a chanfod twyll. | 31 Rhagfyr 2020 | Sue Hill |

| Cyf | Maes i'w wella | Canlyniad/lles a ddymunir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G5 | **Ymatebion i dwyll**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio ffyrdd o wella cydweithrediad yn ehangach ar draws ffiniau'r sector o ran risgiau a heriau cyffredin. | Lles cyffredin o ganlyniad i rannu gwybodaeth, sy'n arwain at gryfhau'r gwasanaeth yn fwy. | Ydy | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd archwilio ffyrdd o wella cydweithrediad yn ehangach ar draws ffiniau'r sector o ran risgiau a heriau cyffredin. | 31 Rhagfyr 2020 | Sue Hill |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales/cy

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.